## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â sefydlu a chynnal perthynas waith a gweithio'n effeithiol gyda phobl eraill. Mae hyn yn cynnwys cyfathrebu'n glir, cydweithredu gydag eraill a helpu i wella ffyrdd o gydweithio.

Gallai hyn fod gyda'ch cydweithwyr eich hun, goruchwylwyr/rheolwyr neu bobl sy'n allanol i'ch tîm/adran/sefydliad, yn cynnwys cyflenwyr a chwsmeriaid. Gallai gynnwys gweithio gyda gwirfoddolwyr, hyfforddeion, pobl ar secondiad neu brofiad gwaith. Gallai gynnwys gweithio gyda phobl o gefndiroedd a diwylliannau gwahanol, pobl ag anableddau neu broblemau iechyd neu'r rheiny nad yw eu hiaith gyntaf yr un peth â'ch un chi.

Mae'r safon hon yn addas ar gyfer pawb sydd angen sefydlu a chynnal perthynas waith fel rhan o'u rôl yn y gwaith.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1.
cyflwyno delwedd broffesiynol ohonoch chi eich hun a'r rheiny yr ydych yn eu cynrychioli
2.
nodi rolau yn eich perthynas waith
3.
bod yn ymwybodol o gyfrifoldebau, rhwystrau a chyfyngiadau'r bobl yr ydych yn gweithio gyda nhw
4.
sefydlu ffyrdd o weithio a chyfathrebu
5.
cyfathrebu mewn ffordd sy'n cefnogi perthynas waith gynhyrchiol
6.
bod yn ymwybodol o negesuon cyfathrebu nad ydynt yn rhai llafar
7.
addasu eich cyfathrebu er mwyn iddo gael ei ddeall gan y bobl wahanol yr ydych yn gweithio gyda nhw
8.
darparu gwybodaeth yn glir, yn ystyriol ac mewn ffordd sy'n berthnasol i'r gynulleidfa a'r pwnc
9.
cadw cyfrinachedd
10.
gweithio'n gydweithredol gydag eraill i gyflawni canlyniadau, gan addasu eich rôl a'ch ymddygiad yn unol â hynny
11.
edrych ar arferion gwaith a thrafod cyfleoedd i wella ffyrdd o weithio
12.
ymdrin yn rhagweithiol â phethau sydd yn mynd o'i le gyda'r berthynas
13.
derbyn y bydd gan bobl eraill safbwyntiau a disgwyliadau gwahanol i'ch rhai chi a'u parchu
14.

trin pobl fel unigolion ac nid yn unol â disgwyliadau neu stereoteipiau

15.

gwerthuso eich cyfraniad at y berthynas waith, pa mor dda yr ydych wedi cydweithredu gydag eraill a sut gallech wella yn y dyfodol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y ffyrdd y gallwch gyflwyno delwedd broffesiynol ohonoch chi eich hun a'r rheiny yr ydych yn eu cynrychioli
2. y rhesymau pam y mae perthynas waith yn bwysig a sut gellir eu cynnal a'u gwella
3. pwysigrwydd sefydlu rolau, cyfrifoldebau, rhwystrau a chyfyngiadau'r bobl yr ydych yn gweithio gyda nhw
4. cyfyngiadau eich cyfrifoldeb a'ch awdurdod
5. y rhesymau pam y mae cyfathrebu effeithiol yn bwysig
6. sut i bennu'r y dulliau cyfathrebu sy'n berthnasol i'r gynulleidfa a'r pwnc
7. yr heriau wrth gyfathrebu â phobl y mae eu hiaith, eu tafodiaith neu eu ffordd o siarad yn wahanol i'ch un chi a sut gellir goresgyn hyn
8. ffyrdd o leihau camddealltwriaeth a gwella cyfathrebu
9. pwysigrwydd cynnal sgiliau gwrando da
10. sut gallai eich cyfathrebu nad yw'n llafar gael ei ddehongli gan eraill a sut gallai eu cyfathrebu nhw effeithio ar eich amgyffrediad ohonynt
11. pwysigrwydd peidio â defnyddio datganiadau bychanol mewn sefyllfa waith
12. pwysigrwydd cynnal cyfrinachedd
13. y pethau allai fynd o'i le gyda pherthynas waith a'r ffyrdd y gellir goresgyn y rhain
14. pwysigrwydd gwerthuso eich cyfraniad at berthynas waith a sut gellir gwneud hyn

## Geirfa

**Anabledd** – Y term a ddefnyddir i gyfeirio at weithrediad unigolyn, yn cynnwys nam corfforol, nam synhwyraidd, nam gwybyddol, nam deallusol, salwch meddwl, a mathau amrywiol o glefyd cronig.

Gallai y **dulliau cyfathrebu** gynnwys:

- wyneb yn wyneb
- ffôn
- cyswllt fideo
- neges ysgrifenedig
- neges lafar
- neges electronig
- ebost
- cyfryngau cymdeithasol
- aps
- gohebiaeth ysgrifenedig ffurfiol

**Cyfathrebu nad yw'n llafar** – iaith y corff, tôn y llais, ymddygiad

**Ffyrdd o leihau camddealltwriaeth a gwella cyfathrebu** – er enghraifft, cymryd amser i wrando'n ofalus, gan wirio eich dealltwriaeth, dysgu'r confensiynau ar gyfer cyflwyniadau a chyfarchion, defnyddio ystumiau, osgoi idiomau, esbonio byrfoddau, defnyddio lluniau a diagramau, dysgu rhai ymadroddion yn iaith y person arall.

Sefydlu a chynnal perthynas waith LEGACY

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2020 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Maw 2025 |
| **Dilysrwydd** | Etifeddiaeth |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANCS4 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwy- Ceffylau, Ffermio Pysgod, Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid, Cadwraeth Amgylcheddol, Gweithiwr Pysgodfeydd |
| **Cyfres/Set** | Cynhyrchu Cnydau Amaethyddol, Ffensio, Technoleg Anifeiliaid, Ceffylau, Garddwriaeth, Gwaith coed, Cadwraeth Amgylcheddol, Crofftwyr a Thyddynwyr, Dyframaethu, Rheoli Pysgodfeydd, Gweithrediadau Peirianneg ar y Tir, Cynhyrchu Anifeiliaid Fferm, Gofal a Llesiant Anifeiliaid, Blodeuwriaeth, Gofal Deintyddol Ceffylau, Gofal Traed Ceffylau, Nyrsio Milfeddygol a Gwasanaethau Cynorthwyol, Rheoli Helfilod a Bywyd Gwylly, Gweithgareddau Milfeddygol Lled-broffesiynol |
| **Geiriau Allweddol** | cyfathrebu; cydweithiwr; cyflenwr; cwsmer |